Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
## Lefel y dilyniant:  gwelliant sylweddol

**Ysgol G.G. Aberdâr**
**Laburnam Drive**
**Cwmdâr**
**Aberdâr**
**RCT**
**CF44 8RT**

**Dyddiad yr ymweliad:  Mai 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Sarah Morgan | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Chwefror, 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn cyflawni ar y lefelau uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol wedi canolbwyntio'n dda ar wella'r ddarpariaeth a datblygu strategaethau ar gyfer herio disgyblion mwy abl a thalentog ers yr arolygiad craidd yn 2015. Mae staff wedi derbyn hyfforddiant addas ynglŷn ag adnabod a chefnogi disgyblion mwy abl a thalentog yn fuan ac yn gywir, ac mae arweinwyr wedi diweddaru polisi'r ysgol yn briodol. O ganlyniad, mae athrawon yn defnyddio strategaethau gwerthfawr, sy'n sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol. Er enghraifft, ceir proffiliau dysgwyr defnyddiol er mwyn cefnogi athrawon i asesu gwaith disgyblion yn gywir.

Yn 2015, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad ar y deilliant uwch ym mhob maes dysgu wedi codi i'r 25% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn ogystal, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae asesiadau ar y lefel uwch mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth ac mewn Cymraeg wedi gwella. Erbyn hyn, mae perfformiad mewn Saesneg yn y 25% uchaf ac mae perfformiad mewnCymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn y 50% uwch. Mae'r deilliannau hyn yn adlewyrchu'r safonau yn llyfrau'r disgyblion yn gywir.

### Argymhelliad 2: Gwella safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Yn gyffredinol, mae safonau llythrennedd a rhifedd mwyafrif y disgyblion ar draws y cwricwlwm wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad craidd. Mae safon iaith lafar llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf yn trafod mewn modd hyderus gan ddefnyddio geirfa gyfoethog. Mae'r safonau hyn yn cael eu cynnal drwy gyfnod allweddol 2 ble mae llawer o'r disgyblion yn cyflwyno agweddau o'u gwaith thema ar lafar mewn dull gwybodus a chlir.

Ar draws gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen, mae medrau ysgrifennu annibynnol llawer o ddisgyblion o safon uchel ac yn dangos cynnydd amlwg dros gyfnod byr o amser. Mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig ar draws ystod o bynciau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau ysgrifennu yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus trwy gynllun grymus ac yna'n cael eu datblygu'n rheolaidd trwy themâu. O ganlyniad, mae'r gwaith ysgrifennu sydd yn llyfrau thema'r disgyblion yn dangos cynnydd cadarn.

Mae llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn cymhwyso eu medrau darllen yn dda. Maent yn caffael gwybodaeth o lyfrau cyfair a'r rhyngrwyd yn hyderus er mwyn

canfod prif negeseuon y testun, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth am gystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Mae disgyblion ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'u medrau rhifedd yn effeithiol i ddatrys problemau ac i gyfrifo llif, lled a dyfnder afon. Mae medrau datrys problemau mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n briodol, ynghyd â'u gallu i gyfathrebu a rhesymu'n fathemategol, er enghraifft wrth ddarllen map a dehogli graddfeydd amrywiol.

Erbyn ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn trin rhif yn bwrpasol, yn dwyn ffeithiau rhifedd i gof ac yn cymhwyso'r wybodaeth yn briodol wrth ddatrys problemau. Mae mwyafrif o'r disgyblion mwyaf galluog yn rhoi esboniadau mathemategol i gefnogi eu dulliau a'u casgliadau.

**Argymhelliad 3: Gwella presenoldeb disgyblion**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â rhieni a swyddogion lles yr awdurdod lleol er mwyn sefydlu trefniadau a rhaglenni ymyrraeth effeithiol ar gyfer hybu presenoldeb disgyblion. Mae gan yr ysgol ddisgwyliadau clir i rieni ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw absenoldeb. Mae'r neges bwysig hon yn cael sylw rheolaidd yng nghylchlythyrau'r ysgol i rieni ac mewn sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol yr ysgol.

Mae staff yn ymateb yn gyflym i unrhyw achos o absenoldeb heb eglurhad trwy gysylltu gyda rhieni ar fore'r absenoldeb dros y ffôn a thrwy neges destun. Anfonir ffurflenni at rieni yn gofyn iddynt esbonio absenoldebau. Mae hyn wedi arwain at godi lefelau presenoldeb unigolion sydd â hanes o absenoldeb parhaus a chyson.

Mae'r uwch dîm rheoli yn dadansoddi data presenoldeb yn wythnosol er mwyn olrhain presenoldeb pob disgybl. Targedir teuluoedd lle mae presenoldeb yn disgyn yn is na 95%. Anfonir adroddiad adref at rieni bob hanner tymor yn nodi presenoldeb eu plant, sydd yn nodi'n glir os yw'r disgybl mewn perygl o dangyflawni yn sgil unrhyw absenoldebau. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda'r swyddog lles sydd yn ymweld â theuluoedd bregus er mwyn cynnig cefnogaeth briodol.

Mae'r pennaeth yn rhannu canlyniadau presenoldeb pob dosbarth gyda'r ysgol gyfan mewn gwasanaethau wythnosol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymfalchïo os yw eu dosbarth yn llwyddo i ennill gwobr ac maent yn ymwybodol o'r angen i gyrraedd yr ysgol mewn da o bryd i gofrestru. Mae bron pob disgybl bellach yn cyrraedd yn brydlon ac mae'r ysgol wedi gweithio'n dda gyda rhieni i ddileu unrhyw batrwm o gyrraedd yn hwyr. Mae hyn yn cynnwys cynnig clwb brecwast, sydd bellach yn cael ei ddefnyddio gan 25% o'r disgyblion.

Yn sgil y systemau llwyddiannus hyn, sydd bellach yn weithredol drwy'r ysgol, mae presenoldeb wedi cynyddu ychydig i 94.8% yn 2015. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn parhau yn y 25% isaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Mae data ar ôl dau dymor yn dangos bod y cynnydd hwn yn parhau. Mae'r presenoldeb cyfredol wedi codi i 95.4% sydd yn uwch na phresenoldeb adeg hyn y llynedd.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod cynllunio'r Cwricwlwm Cenedlaethol a medrau llythrennedd a rhifedd yn gyflawn, ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, medrau a dealltwriaeth**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae mwyafrif yr athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sydd yn tanio chwilfrydedd llawer o ddisgyblion. Mae gwaith cynllunio y rhan fwyaf o athrawon yn gyson dda ac yn sicrhau bod yr ysgol yn ateb gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen yn llawn.

Mae'r ysgol wedi sefydlu systemau cynllunio effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r cynlluniau eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar allu'r disgyblion i gymhwyso a chaffael eu medrau'n llwyddiannus. O dan arweiniad y cydlynwyr llythrennedd a rhifedd, mae cynlluniau'r athrawon yn seiliedig ar drosolwg trwyadl o'r medrau. Mae hyn yn cychwyn sicrhau dilyniant a pharhad o un flwyddyn i'r llall.

Mae'r ysgol yn paratoi cynlluniau gwersi dyddiol manwl sydd yn sicrhau bod medrau llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol ar draws y mwyafrif o bynciau. Wrth asesu gwaith disgyblion, mae athrawon yn cofnodi pa agweddau o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd maent wedi eu cyflwyno. Mae'r wybodaeth hon yn bwydo'n briodol i'w cynlluniau tymor byr. Mae athrawon yn cyd-gynllunio'n ofalus ac yn defnyddio cynorthwywyr dosbarth ychwanegol yn effeithiol i gefnogi'r dysgu a datblygu medrau grwpiau penodol o ddisgyblion trwy ystod o raglenni ymyrraeth effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio rhaglen electronig ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn y medrau. Gwneir defnydd da o'r deilliannau asesu hyn er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn natblygiad unigolion. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol systemau ddigon cadarn er mwyn sicrhau bod ystod y medrau yn cael eu datblygu'n ddigon cynyddol ar draws pob pwnc a maes astudio.

**Argymhelliad 5: Gwella'r cynllunio er mwyn sicrhau her gyson ar gyfer disgyblion o bob gallu**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae athrawon wedi addasu a mireinio cynllunio tymor byr yr ysgol sawl gwaith ers yr arolygiad craidd er mwyn bodloni anghenion grwpiau gwahanol o ddisgyblion ym mhob dosbarth. Mae'r broses ddatblygiadol hon wedi helpu staff i adlewyrchu ar eu hymarfer ac wedi rhoi cyfleoedd iddynt gydweithio i ddatblygu cyfleoedd dysgu mwy heriol i ddisgyblion. Mae gwaith cymedroli mewnol yn datblygu'n raddol. Mae athrawon wedi derbyn hyfforddiant ac yn gweithio mewn grwpiau addas er mwyn cymharu, safoni a chymedroli gwaith disgyblion. O ganlyniad, mae dealltwriaeth gadarn gan athrawon o ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen a lefelau cyfnod allweddol 2.

Erbyn hyn, mae'r cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol o gyrhaeddiad y disgyblion. Mae athrawon bellach yn dechrau canolbwyntio'n addas ar ddarparu gwaith sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion wrth wahaniaethu, cwestiynu a herio disgyblion yn briodol. Mae cynlluniau athrawon, fel arfer, yn nodi

gweithgareddau gwahanol, neu gefnogaeth amrywiol. Er enghraifft, yn ystod gwersi mathemateg, mae disgyblion iau yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu dealltwriaeth o gymesuredd trwy ddewis gweithgareddau sy'n sicrhau her gynyddol. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau bob amser yn canolbwyntio'n ddigon cryf ar ddatblygu medrau penodol, ac nid yw'r arfer bob amser yn gyson.

**Argymhelliad 6: Sicrhau bod sylwadau athrawon yn galluogi disgyblion i ddeall yr hyn sydd angen iddynt wneud er mwyn gwella eu gwaith**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol wedi datblygu polisi a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer marcio gwaith disgyblion. Mae'r uwch dîm rheoli yn monitro ansawdd y sylwadau sydd yn cael eu rhoi i'r disgyblion ac yn cyflwyno adborth i'r athrawon er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r cod marcio ac maent yn ei ddefnyddio'n effeithiol wrth olygu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

Mae gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd ac yn gyson gan yr athrawon. Mae'r sylwadau yn adeiladol ac yn nodi'r glir yr hyn sydd angen i ddisgyblion ei wneud i wella ansawdd a chywirdeb eu gwaith. Rhoddir cyfleoedd cyson iddynt ymateb ac i weithredu ar gyngor yr athrawon ac i ailddrafftio eu gwaith.

Erbyn hyn, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o ddisgwyliadau athrawon o sut i lwyddo mewn tasg. Mae'r llawer o athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Defnyddir dwy seren a dymuniad er mwyn llunio targedau unigol disgyblion a, gan amlaf, mae targedau disgyblion yn benodol ac yn heriol. Mae athrawon a'r disgyblion yn adolygu cynnydd ar y cyd yn gyson. Mae'r broses o rannu meini prawf llwyddiant wedi datblygu ar draws yr ysgol ac mae'r disgyblion bellach yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn llwyddiannus iawn i'w helpu i farcio gwaith eu hunain. Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf llwyddiant yn sicrhau her reolaidd ym mhob dosbarth ar gyfer disgyblion o bob gallu.

Mae targedau ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn weledol ym mhob dosbarth drwy'r ysgol. O ganlyniad, mae medrau'r disgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt atgoffa eu hunain yn rheolaidd o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

**Argymhelliad 7: Cryfhau rôl yr arweinwyr a'r llywodraethwyr er mwyn cynllunio'n strategol ar gyfer codi safonau disgyblion**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae aelodau'r uwch dîm rheoli wedi datblygu eu medrau arweinyddiaeth yn effeithiol ers yr arolygiad craidd ac maent bellach yn gweithio'n llwyddiannus fel tîm. Mae cyfrifoldebau arweinwyr yn glir ac mae holl staff yr ysgol yn deall eu rolau a'u disgwyliadau'n dda. Mae pob arweinydd yn gyfrifol am argymhelliad penodol yn y cynllun gwella ôl-arolygiad ac maent yn gweithio'n agos â'r llywodraethwr dynodedig i sicrhau cynnydd cadarnhaol yn erbyn y blaenoriaethau. Mae ffocws cryf ar wella darpariaeth a chodi safonau disgyblion. Mae gan yr ysgol amserlen gynhwysfawr ar

gyfer hunanarfarnu, sy'n cynnwys arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau disgyblion a gwrando ar ddysgwyr. Mae arweinwyr yn defnyddio tystiolaeth o'r gweithgareddau hyn yn effeithiol i werthuso cynnydd yn erbyn argymhellion y cynllun gwella ôl-arolygiad ac i ystyried blaenoriaethau ar gyfer y cynllun gwella nesaf. Er gwaethaf hyn, mae'n rhy gynnar i weld yr effaith lawn ar ddeilliannau disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol wedi datblygu eu rolau'n helaeth. Erbyn hyn, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau. Mae llawer wedi ymweld â'r ysgol yn rheolaidd er mwyn arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a thrafod cynnydd yn erbyn argymhellion yr arolygiad gyda staff. Mae canfyddiadau'r gwaith hwn yn cael eu rhannu'n effeithiol gyda holl arweinwyr a llywodraethwyr yr ysgol, trwy rwydwaith ddigidol HWB. Mae llywodraethwyr yn herio arweinwyr am safonau disgyblion yn hyderus. Er y gwelliant hwn yn eu hymarfer, nid ydynt eto wedi datblygu system gadarn i werthuso effaith gwariant diweddar ar adnoddau newydd ar ddeilliannau disgyblion.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.